Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor
Gwynedd, LL57 2TU
Ffôn/Tel: 01248 352633
swyddfa@tryfan.ysgoliongwynedd.cymru

Taliadau ar-lein Medi 2022

Gofynnwn yn garedig i chi dalu ar-lein am yr holl wasanaethau a gynigir gan yr ysgol, gan gynnwys teithiau ysgol, gwersi offerynnol, gweithgareddau amrywiol a chinio ysgol. Nid ydym bellach yn gallu derbyn unrhyw arian parod / sieciau.

Gofynnwn i rieni ddilyn y camau isod er mwyn eich galluogi i wneud taliadau ar-lein. Os oes gennych gyfrif School Gateway yn barod, ewch ymlaen i bwynt 3.

1. Agor cyfrif ar wefan Cyngor Gwynedd drwy ddilyn www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif

2. Agor cyfrif School Gateway – Gweler yr atodiad 'Canllawiau Talu'

3. Rhoi caniatad i'ch plentyn gofrestru ar System Arlwyo Ddi-arian yr ysgol (system biometrig) – Gweler yr atodiad 'Gwybodaeth I Rieni' am wybodaeth bellach ar y system. Bydd angen i chi nodi eich caniatad ar y ffurflen yma: https://forms.office.com/r/3sgPh91MbQ

4. Bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi rhoi arian yng nghyfrif cinio eich plentyn - 'Cinio Ysgol 2022/23'. Gellir talu unrhyw swm o arian i gyfrif cinio disgybl, a bydd unrhyw arian a warir ar fwyd a diod yn cael ei ddidynnu pob diwrnod. Bydd uchafswm gwariant dyddiol o £5.00 yn cael ei raglennu i'r system. Gellir cynyddu neu ostwng hwn ar gyfer pob disgybl unigol trwy wneud cais ysgrifenedig i swyddfa'r ysgol.

Cofiwch gysylltu â'r ysgol os am unrhyw gymorth / wybodaeth bellach am yr uchod (01248 352633 / swyddfa@tryfan.ysgoliongwynedd.cymru)